Dewiswch Gnwd

Mae llond gwlad o hadau llysiau gwahanol i ddewis ohonynt a gall fod yn anodd penderfynu beth i'w blannu! Dewiswch rywbeth yr hoffech ei fwyta neu rywbeth yr ydych wedi bod yn awyddus i'w dyfu ers sbel a gwirio pa mor dal fydd y planhigyn yn tyfu cyn i chi ei blannu.



Dewiswch Botyn

Mae llwythi o bethau y gallwch eu hailgylchu i'w defnyddio fel potyn; does dim rhaid iddyn nhw gostio ffortiwn! Mae tiwbiau papur tŷ bach yn gwneud potiau gwych ar gyfer ffa, pys a moron a'r peth gorau am hynny yw na fydd rhaid i chi amharu ar y gwreiddiau pan fyddwch yn eu rhoi mewn potyn mwy neu yn y tir gan fod modd plannu'r cardfwrdd hefyd!



Dewiswch Le

Bydd angen golau a gwres ar eich hadau i dyfu felly dewiswch silff ffenestr sy'n cael yr haul. Os oes gennych ardal blannu y tu allan gallwch ddechrau rhoi rhai o'r hadau yn yr ardd. Cofiwch eu gorchuddio â photel blastig dryloyw i greu tŷ gwydr bach.



Pick a Crop

There are so many varieties of vegetable seeds to choose from it can be difficult to decide on what to plant! Pick something you would like to eat or that you have always wanted to grow and do a quick check as to how big the plant will grow.



Pick a Pot

There are many recyclable objects you can use as a pot; it doesn't have to cost the earth! Toilet roll tubes make fantastic pots for beans, peas and carrots and the best thing is you don't need to disturb the roots when you put them into a bigger pot or the ground as the cardboard can be planted too!

Pick a Spot

Your seedling will need light and warmth to grow so choose a sunny windowsill to get it started. If you have outside space you can start some seedlings off in the garden. Cover them with a clear plastic bottle to create a mini greenhouse.